



YSGOL GYMRAEG PEN-Y-GROES
ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI GAN Y CORFF
LLYWODRAETHOL
2019/2020

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn unol â Rheoliadau Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am flwyddyn lwyddiannus ein hysgol. Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os ydych am gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth, neu os hoffech gynnig sylw ar yr adroddiad hwn.

Yn gywir

Mike Landers

Cadeirydd.

Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes,


Bryn Celyn,

Caerdydd, CF23 7EH

Rhif ffôn: 029 2073 5723

CYNNWYS

Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu	1
Llywodraethwyr ysgol	2
Gwybodaeth am yr ysgol	3
Datblygiadau Cwricwlwm	4
Gweithgareddau amrywiol	5
Presenoldeb ac absenoldebau	6
Datganiad ariannol	7



Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Mae'n bleser mawr gen i allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr eleni. Mae'n cwmpasu'r Flwyddyn Ysgol rhwng Medi 2019 a Gorffennaf 2020 ac yn myfyrio ar yr amseroedd rhyfeddaf o bosibl wrth ddarparu Addysg. Digwyddiadau sydd wedi parhau hyd heddiw yn 2021.

Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i Mrs Fenner a holl aelodau staff addysgu a staff chynorthwyol yr ysgol am eu harweiniad cryf a'u hymroddiad, cefnogaeth ac ymrwymiad parhaus i'r Ysgol a'r disgyblion. Yn dilyn ymadawiad Mrs Catrin Evans i ddilyn Prifathrawiaeth yn Ysgol Gwaelod y Garth gwnaethom groesawu Mr Ryan Chappell fel ein Dirprwy Bennaeth newydd. Rydym yn elwa ar lawer iawn o staff cynorthwyol gweithgar gan gynnwys ein Gweinyddwr Swyddfa, staff cegin, ein Gofalwr a'n glanhawyr. Mae'r flwyddyn academaidd hon wedi bod yn dyst i ddiwydrwydd ac ymroddiad pob un. Rydym fel Cymuned Ysgol yn ddyledus i chi.

Rwy'n ddiolchgar iawn i fy nghyd-lywodraethwyr a roddwyd gymaint o amser trwy gydol y cyfnod hwn. Mae eu dyletswyddau wedi cynnwys Rheolaeth Ariannol, y Cynllun Gwella Ysgolion, Cynnydd academaidd a goruchwyllo'r gweithdrefnau ers i'r Pandemig gychwyn. Fel chi, fe wnaethon ni ddysgu geiriau newydd fel Dysgu Cyfunol, Swigod, Addysg Gartref a Hybiau !! Yn bwysicach fyth, roedd Cyfarfodydd Rhithwir yn caniatáu i'r Llywodraethwyr gysylltu.

Trwy gydol y pandemig hwn, mae cefnogaeth disgyblion a rhieni wedi bod yn rhagorol. Mae ein staff wedi bod yn gwerthfawrogi'r llythyrau cefnogaeth gan Rieni, Gwarcheidwaid a Gofalwyr. Mae'r geiriau caredig hyn wedi golygu cymaint yn ystod yr amseroedd heriol hyn.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r gweithgareddau y mae ein disgyblion wedi bod yn eu mwynhau. Mae'n ddathliad o'n cyflawniadau. Mae cymuned ein hysgol yn gweithio tuag at nod cyffredin: rhoi addysg ragorol i bob plentyn wrth deimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi.

Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os hoffech gael gwybodaeth ychwanegol, neu os hoffech wneud sylw am yr adroddiad hwn.

Diolchwn i bob rhiant, gwarcheidwad a gofalwr am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes,

2. Llywodraethwyr ysgol

Corff Llywodraethol

Cyfnod yn gorffen

Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Mike Landers,(Llywodraethwr Awdurdod Lleol) Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes Pentwyn, Caerdydd CF23 7EH	04.04.21
Is-Gadeirydd	Dr Mathew Pugh (Rhiant)	06.11.21
Pennaeth	Anne Fenner	
Clerc y Llywodraethwyr	Mr Brett Jones Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes Pentwyn, Caerdydd CF23 7EH	
Rhiant Lywodraethwyr	Dr Mathew Pugh Mrs Kerri Evans Mrs Joanne Childs-Hill Ms Billie-Anne Llewellyn	06.11.21 04.03.23 10.12.22 04.06.23
Llywodraethwyr Awdurdod Lleol	Ms Ailsa Newton Mrs Samsunear Ali	30.04.21 24.03.21
Llywodraethwyr Gymunedol	Mr Gary Ellis Sarah Willis	10.12.22 01.02.21
Llywodraethwyr Staff	Nia McGuffie (Cynrychiolydd staff addysgu) Ruth Morgan (Cynrychiolydd staff cynorthwyol)	07.10.22 26.09.21
Ar hyn o bryd mae un lle gwag cymunedol		

Is-bwyllgorau y Corff Llywodraethol

Disgyblaeth a gwahardd disgyblion : Mr Mike Landers, Mrs Kerri Evans, Mr Gary Ellis

Disgyblu staff a Diswyddo : Mrs Joanne Childs-Hill, Mrs Kerri Evans, Mrs Samsunear Ali

Cyllid a Staffio: : Mr Mike Landers, Dr Mathew Pugh, Mrs Anne Fenner, Mrs Joanne Childs-Hill

Adeiladau/Iechyd a Diogelwch: Mrs Ruth Morgan, Mrs Anne Fenner, Dr Mathew Pugh, Mrs Sarah Willis, Mrs Joanne Childs-Hill

Rheoli Perfformiad / Adolygiad Cyflog : Mr Mike Landers, Mrs Kerri Evans, Mrs Joanne Childs-Hill

Achosion o gwyno : Mrs Sarah Willis, Mrs Ailsa Newton, Ms Kerri Evans, Mrs Samsunear Ali

Cwynion cyffredinol: Mrs Kerri Evans, Mrs Ruth Morgan, Ms Ailsa Newton

2. Gwybodaeth am yr ysgol

Staffio 2020-2021

Meithrin : Mrs M Williams (A) Mrs K Rees (CDD)

Derbyn : Mrs S Giles (A) Miss S Willacombe (yn absenoldeb Mrs L Gallivan) (CDD)

BI 1 a 2 : Miss I Williams (A) Miss A Beer (CDD)

BI 3 : Miss C Evans (A)

BI 4 : Mr R Chappell (A)

BI5 a 6 : Mrs N McGuffie (A) Miss L Bailey (CDD)

SENCo : Mrs N McGuffie

Athrawon CPA: Miss C Nolan a Mrs Anne Fenner

Dosbarth Lles : Mr G Jones (A) Mrs C Canham (CDD) Mr S Canham (CDD)

Clerc ysgol : Mrs R Morgan

Partner Gwella y Consortiwm: Mrs Meinir Howells

Niferoedd disgyblion — Medi 2020

Meithrin : 14

Derbyn : 18

BI 1 : 15

BI 2 : 13

BI 3 : 16

BI 4 : 24

BI 5 : 7

BI 6 : 6

Dyddiadau tymor 2020—2021

Tymor	Tymor yn cychwyn	Hanner Tymor		Tymor yn gorffen
Tymor yr Hydref	Mawrth Medi 1 2020	Llun Hydref 26 2020	Gwener Hydref 30 2020	Gwener Rhagfyr18 2020
Tymor y Gwanwyn	Llun Ionawr 4 2021	Llun Chwefror 15 2021	Gwener Chwefror 19 2021	Gwener Mawrth 26 2021
Tymor yr Haf	Llun Ebrill 12 2021	Llun Mai 31 2021	Gwener Mehefin 6 2021	Mawrth Gorffennaf 20 2021

Gwyl y Banc : Llun 3ydd o Fai 2021

Trefniadaeth/Sefydliad Ysgol

Math: Cynradd

Ystod Oedran: 4-11

Amser dysgu'r wythnos: Cyfnod Sylfaen: 22 awr a 30 munud

Cyfnod Allweddol 2: 22 awr a 55 munud

Y Cyfnod Clo

O ganlyniad i goblygiadau pandemig Covid-19 roedd angen cau yr ysgol ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion rhwng Mawrth 23 a Mehefin 29ain. Yn ystod y cyfnod hwn gosodwyd gwaith ar safle Hwb—Google Classrooms i ddisgyblion. Roedd angen cynnal cyfarfodydd staff a Llywodraethwyr yn ddigidol. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod hwn bu pob aelod o staff hefyd yn gweithio mewn Hwb a'i leolwyd yn Ysgol Llanishen Fach ar gyfer disgyblion bregus a rhai oedd a rhieni a oedd yn gweithwyr Allweddol. Ar 29ain o Fehefin symudwyd y ddarpariaeth Hwb yn ôl i'r ysgol hyd at ddiwedd yr haf. Yn ystod y tair wythnos olaf yn Nhymor yr Haf cafodd pob ddisgybl y cyfle i fynychu'r ysgol er mwyn 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' ar gyfer mis Medi. Roedd hyn yn sicrhau y cyfle i dreialu trefniadau a systemau diogelwch i leihau'r risg o ledu'r haint yn unol â asesiad risg manwl yr ysgol.

4. Datblygiadau'r Cwricwlwm

Ym mis Ionawr 2020 cafodd gallu pob ysgol i wella ei gategoreiddio fel lliw yn seiliedig ar ddata'r tair blynedd flaenorol, Mae'r ysgol wedi'i chategoreiddio ar sail canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a chanlyniadau Cyfnod Allweddol 2. Ar gyfer Ionawr 2019/20 arhosodd yr ysgol yn y categori gwyrdd.

Asesiadau Diwedd Cyfnod Sylfaen

Ni chynhaliwyd Asesiadau Athrawon na'r Profion Cenedlaethol eleni oherwydd y cyfnod clo.

Asesiadau Cyfnod Allweddol 2

Ni chynhaliwyd Asesiadau Athrawon na'r Profion Cenedlaethol eleni oherwydd y cyfnod clo.

Ysgolion Iach

Mae'r ysgol wedi cyflawni cam 3 o'r rhaglen ysgolion iach ac yn hybu bwyta'n iach ar draws yr ysgol.

Mae'r plant yn y Cyfnod Sylfaen yn derbyn darn o ffrwyth yn ddyddiol ac yn derbyn llaeth am ddim. Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae'r plant yn cael eu hybu i ddod a ffrwyth i'r ysgol yn ddyddiol i'w fwyta yn ystod amser chwarae. Rydym yn hybu bob disgybl hefyd i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae dŵr yfed ar gael i bob plentyn trwy gydol y dydd.

Mae Addysg Iechyd yn elfen allweddol ac annatod o'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion er mwyn eu haddysgu ac annog eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd. Yn sgil hyn maent yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol a'r agwedd gywir sy'n arwain at fywyd cyfrifol ac iachus.

Cynhaliwyd wythnos Iechyd a Lles lle bu lu o weithgareddau ffitrwydd yn cael eu cynnal gan staff ac hefyd gan Swyddogion yr Urdd, cwmni Admiral a gynhaliwyd 'Play Together Workshop' ac fe fu'r plant gyda chymorth y Cyngor Ysgol yn codi arian ar gyfer elusen NSPCC wrth redeg o amgylch dir yr ysgol.

Addysgir Addysg Ryw a Chamddefnyddio Sylweddau fel rhan o Addysg Iechyd yr ysgol ar gyfnodau sy'n addas yn natblygiad y disgyblon.

Siarter Iaith

Hyd yn hyn mae'r ysgol wedi cyflawni'r Wobr Efydd am y Siarter Iaith sy'n cefnogi nod Llywodraethau Cymru i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cynhaliodd yr ysgol amrywiol weithgareddau trwy gydol y flwyddyn gydag ymweliadau gan Mei Gwynedd a Lowri Morgan. Yn ystod wythnos Cymru Cŵl dysgodd y disgyblion am draddodiadau a hanes Cymru ac fe'u hanogwyd i ymfalchio yn eu treftadaeth a'r gallu sydd ganddynt i siarad Cymraeg. Fe wnaethon ni gynnal Eisteddfod ysgol lwyddiannus lle enillodd Trystan Nelson y Gadair Farddol ym mlwyddyn 6. Bu'r disgyblion hefyd allan yn y gymuned yn gwyllo Sioe Cyw ac aeth ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i fwynhau gig gan Bronwen Lewis yn Ysgol y Berllan Deg.

Diwrnod Masnach Deg

Ni chynhaliwyd diwrnod Masnach Deg oherwydd y cyfnod clo.

E-Ddiogelwch

Cynhaliodd yr ysgol gwersi e-ddiogelwch a chyflawnodd y disgyblion amrywiaeth o weithgareddau dysgu a thrafod. Fe wnaethant ddysgu pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein a pha gamau i'w cymryd pe byddent yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd ar-lein gan eraill.

Ymweliadau ac Ymwelwyr

Trefnwyd ymweliadau addysgiadol ar gyfer disgyblion â aeth ar ymweliadau i Llancaiach Fawr a St Ffagan.

Bu disgyblion blwyddyn 3-6 i Jambori yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm ac aeth disgyblion y Derby, Blwyddyn 1 a 2 i Ysgol Bro Edern i wyllo sioe Cyw.

Fel rhan o waith gan IntoFilm cafodd y disgyblion cyfle i fynychu'r sinema am ddim i weld ffilmiau gwahanol. Aeth Blwyddyn 4 i sinema Vue i wyllo 'A Dog's Way', aeth blwyddyn 5 i Sain Ffagan i wyllo 'Swallows and Amazons' a bu blwyddyn 3 i Sain Ffagan i wyllo 'Deian a Loli'.

Mynychodd Blwyddyn 6 y sesiynau 'Crucial Crew' blynyddol hefyd yn edrych ar ddiogelwch personol, a threuliodd yr wythnos yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog lle daethant i adnabod disgyblion eraill o ysgolion cynradd eraill yng nghlwstwr Bro Edern.

Daeth amrywiaeth o ymwelwyr i siarad â'r plant; roedd y rhain yn cynnwys Adam Coleman a gyflwynodd wasanaethau ysgol, y llyfrgellydd lleol a drafododd Gynllun Darllen yr Haf a dosbarthu tystysgrifau, Mr Kevin Davies (Gwasanaeth Diolchgarwch), Banc Bwyd Caerdydd a drafododd eu gwaith yn y gymuned. Fe wnaeth y disgyblion hefyd fwynhau cyflwyniadau gwasanaeth o Mad Science, swyddogion yr Urdd i gynnal gweithgareddau chwaraeon, Swyddogion yr Urdd i gynnal gweithgareddau awyr agored, swyddog o Gyngor Sir Caerdydd i gynnal Gwasanaeth ar Gynhesu Byd-Eang a chynnal gweithdy i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6. Yn ogystal daeth Mei Gwynedd i'r ysgol i recordio cân yr ysgol, daeth Lowri Morgan i siarad â disgyblion blwyddyn 6 y clwstwr am ei hanes. Cafodd y disgyblion wasaneth gan yr NSPCC i drafod cadw'n ddiogel.

Dysgodd disgyblion Blwyddyn 2 am ddiogelwch ar y ffyrdd trwy raglen Kerbcraft. Aeth disgyblion blwyddyn 1 a 2 hefyd allan i'r gymuned i ganu carolau yn swyddfeydd SSE ym Mhorth Caerdydd tra aeth blynyddoedd 4, 5 a 6 i Gartref Gofal Ty Enfys i ddiddanu'r preswylwyr a'r staff.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn sgil polisi'r ysgol ar nodi disgyblion gydag AY y nifer o ddisgyblion a gofrestrwyd ar bob cam o'r Cod Ymarfer, fel yr oedd ym mis Gorffennaf 2019 oedd: 14.5%

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn ysgol gynhwysol ac mae ymyrraeth ar unrhyw achlysur o fewn cyd-destun ddarpariaeth ysgol gyfan.

Mae'r ymateb graddedig sy'n benodol ar gyfer AY yn adnabod yr angen am gontinwmm o anghenion. Mae cam 1 yn gynhwysiad effeithiol ysgol gyfan ar gyfer disgyblion gydag AY ac mae unrhyw strategaethau cefnogaeth ar gyfer unigolion yn cael eu gweithredu gan yr athrawes ddosbarth.

Gweithredu Ysgol (GY)

Os nad yw'r disgybl yn gwneud cynnydd neu ond yn gwneud ychydig o gynnydd ar gam 1 byddant yn cael ei gosod ar GY. Ar y cam yma fe fydd y disgybl yn derbyn Cynllun Addysgiadol Unigol neu Gynllun Ymddygiadol Unigol(CAU/CYU) sydd yn cynnwys 3 targed. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n dymhorol.

Gweithredu Ysgol + (GY+)

Os nad oes cynnydd digonol yn cael ei wneud ar GY, mae'r SENCo, mewn cydweithrediad gyda'r rhieni / gwarchodwyr yn dod i'r casgliad bod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol. Fe fydd y disgybl yn cael ei roi ar GY+ ac mae'r Ysgol yn ceisio am arweiniad allanol wrth athrawon arbennigol, iechyd neu'r gwasanaeth seicolegol addysg.

Datganiad

Mewn ychydig o achosion, mae'n bosibiliad bydd angen i'r ysgol ystyried, mewn cydweithrediad gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol, bod angen asesiad statudol. Mae'r ysgol yn defnyddio canllawiau'r AL er mwyn cynorthwyo unrhyw benderfyniadau. Os oes gan y disgybl anghenion dwys, mae datganiad o anghenion ychwanegol yn cael ei gyhoeddi gan yr Awdurdod Lleol.

Mae gan bob plentyn sydd wedi ei gofrestru ar lefel Gweithredu gan Ysgol, neu fwy, Gynllun Addysg sy'n cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn briodol. O ganlyniad, gall lefel anghenion disgybl newid i ddiwallu ei anghenion. Mae'r staff yn parhau i fynychu cyrsiau, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes ADY.

Blaenoriaethau ysgol ar gyfer 2019/20:

BLAENORIAETH 1: Gwella rhuglder, dealltwriaeth a sgiliau dadansoddol darllen er mwyn cynyddu oedrannau darllen Cymraeg a Saesneg

BLAENORIAETH 2: Datblygu addysgu mathemategol sydd yn ymgorffori'r 5 hyfedredd er mwyn gwella dealltwriaeth a'r gallu i drosglwyddo sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

BLAENORIAETH 3: Datblygu sgiliau TGCh y disgyblion ar draws yr ysgol gan sicrhau bod eu sgiliau Cymhwysedd Digidol yn cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm

BLAENORIAETH 4: Gweithredu strategaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth i'r Cod Ymarfer ADY newydd er mwyn sicrhau bod mynediad i bawb at ddarpariaeth dysgu ychwanegol

BLAENORIAETH 5: Edrych ar a datblygu model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu gan gan-olbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth ym maes dysgu. Datblygu capasiti arweinyddiaeth staff a disgyblion trwy brosiectau ymchwil.

5. Gweithgareddau amrywiol

Clybiau All—Gwricwlaidd

Mae yna nifer o glybiau i'r disgyblion yn ystod eu blwyddyn ysgol, mae'r rhain yn cynnwys clwb uku-lele, clwb rygbi, clwb gymnasteg, clwb pêl-droed, clwb pêl-rwyd, a'r clwb urdd - creadigol. Yn y Clwb Urdd cafodd y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, crefft, cerddoriaeth a gemau. Diolch yn fawr i'r staff am eu gwaith caled. Mae rhai disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn Clwb Jiwdo sy'n cael ei redeg gan asiantaethau allanol.

Cynllun Brecwast Am Ddim a Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Dechreuodd y clwb brecwast am ddim yn yr ysgol ym mis Medi 2015. Pwrpas y clwb brecwast yw cyflenwi brecwast i'r rhai na fyddent yn cael fel arall.

Digwyddiadau Elusen

Roedd y plant yn gwisgo smotiau er budd Plant Mewn Angen ac fe godwyd £ 136.39. Ar gyfer yr NSPCC bu'r Cyngor Ysgol yn paratoi sialens rhedeg ac fe wnaethom gasglu £193.50. Roedd ein teuluoedd yn hael iawn ac wedi casglu bwyd ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd ac fe wnaethom gasglu 120kg o fwyd sydd yn ddigon ar gyfer 10 person am 3 diwrnod. Trwy wisgo siwmperi Nadolig fe wnaethom gasglu £17 tuag at elusen Achub y plant.

Ffrindiau Pen-y-Groes

Unwaith eto, cafodd y GRhA flwyddyn lwyddiannus iawn o godi arian. Diolch yn fawr i bawb a fu'n ymwneud â threfnu ac am eich holl gyfraniadau i'r digwyddiadau hyn. Gweler yma restr o ddigwyddiadau a faint wnaethon ni ei godi: Parti Calan Gaeaf: £183.65, Ffair Nadolig: £643.00, Siop Nadolig £102.90, Canu yn SSE: £202.00, Arwerthiant Cacennau £90.02, gwisg ysgol £ 40.50 Cyfanswm ar gyfer 2019-2020: £1262.07. Diolch yn fawr iawn.

Ysgol Bro Edern

Rydym ni fel ysgol wedi datblygu cysylltiadau cryf iawn ag Ysgol Bro Edern ac wedi bod yn rhan o nifer o weithgoreu gyda staff o Fro Edern a'r ysgolion eraill yng nghlwtwr Bro Edern. Cynhaliwyd diwrnod HMS ym Mro Edern ar gyfer holl staff ysgolion y clwtwr a oedd yn edrych ar cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Roedd Miss Rhian Shannon yn gweithio bob wythnos gyda disgyblion blwyddyn 6 yn dysgu Ffrangeg i baratoi ar gyfer Bro Edern.

Gweithgareddau Chwaraeon

Yn ystod amser cinio mae staff yn bresennol i chwarae gemau ac annog sgiliau iaith a phersonol a chymdeithasol y plant. Nid oedd modd cynnal mabolgampau arferol eleni oherwydd y cyfnod clo ond bu'r athrawon yn trefnu gweithgareddau ffitrwydd yn ystod y cyfnod hyn. Trefnodd Miss Williams Wythnos Iechyd a Lles ar gyfer yr holl ddisgyblion yn nhymor y gwanwyn a threfnwyd nifer o weithgareddau gan mudiadau allanol fel yr Urdd.

Gweithio gydag ysgolion eraill

Mae'r ysgol wedi gweithio gyda llawer o ysgolion a disgyblion eraill eleni. Dechreuodd ddisgyblion Blwyddyn 3 weithio gydag Ysgol Gynradd Thornhill yn datblygu darllen ar gyfer eu disgyblion i helpu i gefnogi eu datblygiad o'r Gymraeg. Gweithiodd yr ysgol gydag ysgolion eraill y clwstwr wrth gyd-gynllunio thema yn ystod tymor y Gwanwyn. Arweinwyd hyn at weithgareddau a threfnwyd ar y cyd gydag ymweliadau gan Lowri Morgan. Treuliodd Mrs Fenner 3 diwrnod yn hyfforddi staff o amrywiol ysgolion o amgylch Consortiwm Canol y De ar raglen Ffoneg Ffyndi a Sillafu Slic. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ffodus i ymweld ag Ysgol Bro Edern cyn y Nadolig er mwyn gweld eu sioe Olifer.

Diwrnod y Llyfr

Cafwyd ddiwrnod cyffrous eleni gyda phawb wedi dod i'r ysgol yn gwisgo fel cymeriad allan o lyfr. Pwrpas y dydd yw i hyrwyddo darllen a mwynhau cyfleoedd i ddarllen.

Eisteddfod

Cafodd y mwyafrif o ddisgyblion gyfle i gymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol eleni ac aeth llawer o ddisgyblion ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Ysgolion Clwstwr. Da iawn i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran eleni ac i'r holl staff am hyfforddi'r disgyblion.

Blwyddyn 6

Ni fu sioe haf eleni oherwydd y cyfnod clo. Trefnwyd Gwasanaeth ffarwel i ddisgyblion blwyddyn 6 a threfnwyd pitsas i bawb allan ar gaeau yr ysgol. Rydym yn dymuno llwyddiant iddynt yn yr ysgol uwchradd.

Cysylltiadau â rhieni

Unwaith eto, fe wnaeth y plant ddifyrru rhieni a'u teuluoedd yn ein Cyngherddau Nadolig blynyddol. Cynhaliwyd nosweithiau gwybodaeth i rhieni Blwyddyn 6 ar Langrannog ac i rhieni Derbyn a Meithrin newydd. Trefnwyd bore agored llwyddiannus i ddarpar rhieni newydd i'r ysgol lle bu disgyblion yn perfformio ac yn helpu tywys rhieni o gwmpas yr ysgol. Mae cyfathrebu â rhieni yn cynnwys nosweithiau rhieni, adroddiadau blynyddol, diwrnodau agored a chylchlythyrau ysgolion.

Cysylltiadau â'r gymuned

Cynhaliodd yr ysgol Wasanaeth Diolchgarwch yn Nhymor yr Hydref ac aeth yr holl fwyd a gasglwyd i'r Banc Bwyd, Caerdydd. Ymwelodd Mr Kevin Davies â'r ysgol i arwain y Gwasanaeth Diolchgarwch. Rydym yn croesawu llawer o weithwyr proffesiynol i'r ysgol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, gweithwyr iechyd a nyrsys, swyddogion cyllid a TGCh, athrawon ymgynghorol a swyddogion cyswllt. Cawsom ymweliad gan yr arglwydd Faer ynghyd a Chyng. Jacobson a Chyng. Bridgeman a oedd yn awyddus i weld yr ysgol a bu'r plant yn dysgu llawer am eu rôl yng Nghaerdydd. Ymwelodd Llyfrgell Llanedeyrn â'r ysgol i ddsbarthu tystysgrifau i'r rhai a oedd wedi cwblhau Her Darllen yr Haf. Bu disgyblion blwyddyn 6 yn cyd-weithio'n llwyddiannus gyda Heddlu De Cymru ar y prosiect Heddlu Bach.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes bolisi cyfle cyfartal ac mae'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da. Mae'r ysgol yn cofnodi ac yn monitro digwyddiadau hiliol a sut y cânt eu datrys. Mae'r Corff Llywodraethol hefyd yn cael ei annog i adrodd ar y digwyddiadau hyn i ddisgyblion, rhieni a'r AALI. Am wybodaeth bellach gweler ddogfen Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cefnogaeth a chynhwysiant cymdeithasol Disgyblion' Cylchlythyr 3/99.

Mae gan bob disgybl hawl i gwricwlwm eang a chytbwys waeth beth yw eu hanableddau. Mae'r ysgol yn ymdrechu i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn rheolaidd i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu. Mae gan yr ysgol bolisi strategol a chynllun hygrychedd. Mae gan adeilad yr ysgol mynediad da a thoiled i'r anabl. Nid oes unrhyw ddisgyblion anabl yn bresennol ar hyn o bryd.

6. Presenoldeb ac Absenoldebau

Targed Presenoldeb yr Ysgol oedd 95%. Ni chyflawnwyd hwn yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda presenoldeb o 92.32%.

Absenoldeb heb eu hawdurdodi yw pan mae'r ysgol wedi rhoi caniatâd o flaen llaw neu ar ôl cyfnod i ffwrdd o'r ysgol i ddisgybl, ac sydd yn cael ei weld fel rheswm digonol ar gyfer yr absenoldeb.

Absenoldeb heb ganiatâd yw unrhyw gyfnod o absenoldeb o'r Ysgol oherwydd digwyddiad rhagfwriadol neu ddigymell gan y disgybl, y rhiant neu'r ddau. Mae hyn yn cynnwys absenoldebau sydd wedi ei ganiatáu gan riant.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Presenoldeb yn arolygu absenoldebau disgyblion a hefyd yn gweithio gydag unrhyw deulu ble mae yna bryderon mewn perthynas â phresenoldeb trwy gynnig cymorth ac arweiniad.

Hysbysiadau Cosb Benodedig

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru)2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol a/neu unedau cyfeirio disgyblion yn gyson, a hynny heb awdurdodiad.

Polisiâu a Phrosbectws

Rhoddir Prosbectws i rieni pan dderbynnir disgyblion i'r ysgol am y tro cyntaf. Adolygir polisiâu ysgol yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r holl bolisiâu ar gael i'w gweld yn yr ysgol gan drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

Adeiladau/ Iechyd a Diogelwch

Mae'r Llywodraethwyr yn falch iawn o'r ffordd y mae'r disgyblion ac ymwelwyr yn gwneud defnydd o'r adeilad. Mae'r adeilad yn un i fod yn falch ohono, gyda'r adnoddau modern diweddaraf. Mae'r plant yn ddiolchgar am yr holl waith ac mae'r amgylchedd yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn. Mae angen i bob ymwelydd i'r ysgol fynd at y brif fynedfa er mwyn cael mynediad i'r adeilad ac i arwyddo mewn ac allan o'r safle. Mae pob iard ar dir yr ysgol yn addas a phob giât wedi'i chloi yn ddiogel yn ystod y dydd. Mae gan yr ysgol bolisi lechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i holl staff, disgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol.

Cyfleusterau

Mae gan yr ysgol y cyfleusterau toiled angenrheidiol i ddisgyblion mewn ysgol o'i maint ac maent yn cael eu glanhau a'u harchwilio ar ddechrau a diwedd pob diwrnod ysgol a thrwy gydol y dydd hefyd.

Cyllid

Mae datganiad ariannol y flwyddyn 2019/20 wedi ei atodi i'r adroddiad hwn a bydd gwybodaeth am y flwyddyn ysgol hon ar gael o'r ysgol yn ystod tymor y gwanwyn. Mae gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r ysgol ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol, ddim ond I chi drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

Penderfyniadau

Nid oedd yna unrhyw benderfyniadau yn deillio o'r cyfarfod Adroddiad Blynyddol blwyddyn ddiwethaf.

Treuliau Llywodraethwyr

Ni chyflwynwyd ceisiadau am dreuliau.

ARGYMHELLION ESTYN 2012:

Blaenoriaeth 1: Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig y plant yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm.

Blaenoriaeth 2: Gwella ansawdd yr addysgu.

Blaenoriaeth 3: Cryfhau'r gyfundrefn asesu ac asesu ar gyfer dysgu

Blaenoriaeth 4: Cryfhau'r gyfundrefn hunan arfarnu a sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r broses

Blaenoriaeth 5: Datblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol

Blaenoriaeth 6: Fel mater o frys, sicrhau sefydlogrwydd arweinyddiaeth yr ysgol

Mae'r ymweliad gan y tîm ESTYN yn ystod Gwanwyn 2014 yn dangos bod cynnydd da wedi ei gyflawni tuag at bob argymhelliad ac y mae'r ysgol yn mynd yn ôl i'r cylch arferol o Arolygiadau

Governing Body/Corff Llywodraethu of: Ysgol Gynradd Gymraeg Pen Y Groes				
	Governor Approved Budget/Cyllideb a Gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr		Actual Expenditure/ Gwariant Cyflawnedig	
	£	£	£	£
Staffing costs/Costau Staff				
Teaching Costs/Costau Addysgu	385,924		355,041	
Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig	44,604		44,796	
Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad	58,213		58,522	
Short Term Supply/Llanw Byr Dymor	0		0	
Long Term Supply/Llanw Hir Dymor	9,708		16,382	
Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig	35,032		24,490	
Nursery Assts/ Teachers Aides / Adult Helpers/Cynorthwyyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon / Cynorthwyyr	92,715		93,222	
Foreign Language Assistants/Cynorthwyyr Ieithoedd Tramor	0		0	
Technicians/Technegwyr	0		0	
Mid Day Supervisors/Gorychwylwyr Canol Dydd	0		24	
Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb	0		0	
Administrative Staff/Staff Gweinyddol	22,797		23,258	
Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon	0		0	
Training Costs/Costau hyfforddi	2,640		1,897	
Other Staff Costs/Costau staff eraill	23,023		46,364	
Performance Management/Rheoli Perfformiad	0		0	
Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau Staff		674,656		663,996
Premises Related Costs/Costau Eiddo				
Caretaking Staff/Staff Gofalwyr	13,868		13,768	
Domestic Staff/Staff Domestig	8,291		8,460	
Grounds Staff/Staff y Tir	700		268	
Cleaning Costs/Costau Glanhau	22,549		21,817	
Energy Costs/Costau Ynni	9,450		6,886	
Rates/Cyfraddau	0		0	
Repairs and Maintenance/Atgyweiriau a Chynhaliath Water/Dŵr	4,287		4,827	
	3,500		3,633	
Total Premises Related Costs/Cyfanswm		62,646		59,659
Transport Costs/Costau Cludiant				
Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion	0		0	
Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff	500		760	
Vehicle Costs/Costau Cerbydau	0		0	
Total Transport Costs/Cyfanswm Costau		500		760
Supplies and Services/Cyflenwadau a				
Teaching Materials/Adnoddau Addysgu	13,000		10,710	
Equipment, Furniture, Materials & music tuition/Offer, Dodrefn, Deunyddiau a hyfforddiant cerddoriaeth	0		270	
Library Books & Materials/Llyfrau a Deunyddiau	0		0	
Catering Costs/Costau Arlwyio	1,500		1,320	
Unallocated / Savings to be found/Arian heb ei ddosbarthu / Cynilion	927		0	
Communications Equipment and Services/Offer a Gwasanaethau Cyfathrebu	5,700		7,596	
Consultants Fees/Ffioedd Ymgynghorwyr	0		0	
Examinations Fees/Ffioedd Arholiadau	0		0	
Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau	3,000		5,238	
Clerk to Governing Body/Clerc y Corff Llywodraethu	1,000		975	
Other office costs/Costau swyddfa eraill	90		9,001	
Printing & Stationery/Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	2,000		2,835	
Pupil Exclusions/Gwaharddiadau Disgyblion	0		0	
Subsistence and expenses/Cynhaliath a threuliau	0		0	
Total Supplies and Services/Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau		27,217		37,944

Central Services/Gwasanaethau Canolog			
School Meals/Prydau Ysgol	3,930		3,930
Service Level Agreements/Trefniadau Lefel Gwasanaeth	29,050		30,842
Total for Central Services/Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Canolog		32,980	34,772
Income/Incwm			
Additional Central Funding/Mawdd Canolog Ychwanegol	-51,893		-5,285
Community Education/Addysg Cymunedol	0		0
Donations/Rhoddion	-4,500		-7,005
Lettings/Gosodiadau	0		0
Other Income/Incwm arall	-6,969		-2,685
Grant Income/Incwm rhent	0		-89,608
Sales/Gwerthiannau	0		0
School Meals Recharge/Talu am Brydau Ysgol	0		0
Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant	0		-1,087
Total Income/Cyfanswm Incwm		-63,362	-105,669
Interest and Other/Llog ac Arall			
Interest on investments/Llog ar fuddsoddiadau	0		0
School Investments/Buddsoddiadau Ysgol	0		0
Withdrawal Investments/Buddsoddiadau Dileadau	0		0
School Deficit/Gwariant Ysgol			
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0
Interest/Llog	0		0
Total Interest and Other/Cyfanswm Llog ac		0	0
Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant		734,636	691,461
Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddsoddiwyd a ddygwyd ymlaen		-34,086	
Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a glustnodwyd		0.00	0.00
Contribution to / from balances/Cyfraniad i / o falansys			9,089
Revised Net Expenditure/Gwariant Net		700,550	700,550

Summary/Crynodeb

Total resources available in 2019-2020 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2019-2020

€

School balances Brought forward from 2018-2019/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2018-2019	34,086.05
School Loans Brought forward from 2018-2019/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2018-2019	0.00
Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn	0.00
Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau	700,550

Total/Cyfanswm

734,636.05

Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig	691,460.78
Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau	0.00
Less Movements in Temporary Loans/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro	0.00
Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiad â chyfraddau a glustnodir	0.00

Total balance carried forward to 2020-2021/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i 2020-2021

43,175.27

Statement of Balances Held/Datganiad

€

Uninvested Balance as at 31st March 2020/Balans na fuddsoddiwyd ar 31 Mawrth 2020	43,175.27
Invested Balance as at 31st March 2020/Balans a fuddsoddiwyd ar 31 Mawrth 2020	0.00
Outstanding Loans as at 31st March 2020/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2020	0.00

Total Balances held as at 31st March 2020/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2020

43,175.27

